



Drafft Gyllideb Llywodraeth Cymru

20 Rhagfyr 2021

Crynodeb

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft heddiw ar gyfer 2022/23. Mae'r gyllideb yn amlinellu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn y meysydd cyfrifoldeb a ddatganolwyd. Y gyllideb hon yw'r un aml-flwyddyn gyntaf ers 2017, gydag ymrwymiad i "Gymru gryfach, decach a gwyrddach" yn greiddiol iddi. Mae hefyd yn nodi gwariant i gyflawni ymrwymadau sy'n rhan o'r cytundeb cydweithio a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng Llafur/Plaid Cymru.

Mae'r cynigion ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd, a chynhelir dadl arnynt yn y Senedd ar 8 Chwefror.

Mae'r gyllideb yn dyrannu cyfanswm buddsoddiad o bron £1.6bn o fuddsoddiad cyfalaf mewn blaenoriaethau tai, sy'n cynnwys dyraniad £1bn i dai cymdeithasol. Cefnogir hyn ymhellach gan fuddsoddiad o £30m mewn blaenoriaethau tai a digartrefedd.

Mae gan y gyllideb ffocws cryf ar newid hinsawdd, gan osod cynllun newydd ar gyfer £1.8bn o fuddsoddiad wedi'i dargedu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn cynnwys dyraniadau ar gyfer datgarboneiddio stoc tai, llifogydd, dadgoedwigo, bioamrywiaeth, teithio llesol ac ynni adnewyddadwy.

Rhoddir crynodeb isod o'r mesurau a gyhoeddwyd yn y gyllideb sydd yn uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai, gyda manylion pellach yng ngweddill y ddogfen.

Penawdau Allweddol

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi amlinellu dyraniadau cyllid newydd o £1.6bn mewn blaenoriaethau tai sy'n cynnwys £1bn tuag at dai cymdeithasol. Y penawdau gwariant allweddol o'r gyllideb yw:

- £310m Grant Tai Cymdeithasol (cynnydd o £60m yn 2022-23)
- £375m ar gyfer diogelwch adeiladau
- £166m ar gyfer Grant Cymorth Tai
- £1m refeniw i sefydlu cwmni adeiladu cenedlaethol Unnos



- £100m o fuddsoddiad mewn cartrefi cynnes a threchu tlodi tanwydd
- £1.8m o fuddsoddiad wedi'i dargedu dros dair blynedd i gydlynu ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur
- £750m ar gyfer awdurdodau lleol
- £250m i flaenoriaethu gofal cymdeithasol

Manylion ar gyhoeddiadau cyllid

Cyllid ar gyfer cartrefi fforddiadwy

Gwnaed cyfanswm buddsoddiad o £310m yn y Grant Tai Cymdeithasol (SHG) ar gyfer 2022-23. Mae'r gyllideb yn datgelu'r setliad aml-flwyddyn cyntaf, ac yn dyrannu £330m ar gyfer 2023-24 a £325m ar gyfer 2024-25. Daw hyn o fewn pecyn o £1bn ar gyfer tai ac mae'n amlygu'r hyder cryf sydd gan Lywodraeth Cymru mewn tai cymdeithasol ar draws Cymru.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn croesawu'r pecyn cyllid sylweddol hwn ac mae'n bleidlais hyder yn y sector tai cymdeithasol i adeiladu'r cartrefi mae pobl Cymru eu hangen. Roedd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartref yn ddiamwys yn ei alwad i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol, gan osod hyn wrth galon y fframwaith polisiau i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru ac roedd yn o'r pethau allweddol y galwyd amdano yn [ymgyrchu Materion Tai](#) CHC a Cymorth.

Mae'r gyllideb yn dyrannu £1m i sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol fydd yn cynorthwyo darparu 20,000 o gartrefi newydd gan gymdeithasau tai ac yn gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru.

Mae'r buddsoddiad aml-flwyddyn yn neilltuol o gadarnhaol, oherwydd y bydd yn galluogi cymdeithasau tai i greu cynlluniau tymor hirach, mwy cadarn i ddarparu tai fforddiadwy. Fodd bynnag, er bod hyn yn fuddsoddiad sylweddol, rydym yn dal yn ymwybodol iawn o'r pwysau eithriadol sydd ar hyn o bryd ar gymdeithasau tai sy'n dymuno adeiladu cartrefi newydd. Bydd CHC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflawni ein hymrwymiaid yn unol gyda'r cytuniad rhyngom ar gyflenwad tai.

Diogelwch Adeiladau

Eleni buddsoddodd Llywodraeth Cymru £6.5m o refeniw ychwanegol a chyfanswm o £375m mewn cyfalaf hyd at 2024-25 ar gael ar gyfer rhaglenni diogelwch adeiladau. Mae'r gyllideb yn dyrannu £75m ar gyfer 2022-23, £135m ar gyfer 2023-24 a £165m ar gyfer 2024-25.

Mae CHC yn croesawu'r pecyn buddsoddiad hwn gan y bydd y cyllid yn galluogi buddsoddiad hirdymor mewn adfer blociau o fflatiau drwy ail gyfnod Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, ynghyd â chefnogi cyflenwi'r Cynllun Pasbort Diogelwch Adeiladu, gan sefydlu Cyd-dîm Archwilio a chefnogi'r gwaith ar ddiwygio ac adfer hirdymor.

Mae'r gyllideb yn cadarnhau fod diogelwch adeiladau yn dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i sicrhau fod holl gartrefi Cymru yn lleoedd diogel i fyw ynddynt. Mae'r gyllideb yn cyfeirio'n benodol at wendidau diogelwch adeiladau systemig adeiladau preswyl uchel ac yn rhoi manylion ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau diogelwch preswylwyr yr adeiladau hyn.



Digartrefedd

Mae cyllid sylweddol yn y gyllideb eleni i fynd i'r afael â diweithdra yn dilyn lobio ar y cyd gan CHC a Cymorth drwy'r ymgyrch Materion Tai. Dyrannodd Llywodraeth Cymru becyn ychwanegol o £27.5m refeniw hyd at 2024-25 i hybu buddsoddiad mewn atal digartrefedd a chymorth tai ar draws Cymru.

Y llynedd, torrodd Llywodraeth Cymru y rhewi pum-mlynedd ar y Grant Cymorth Tai, gan gynyddu'r cyllid gan 32% i gyfanswm o £167m. Eleni un o nodau allweddol yr ymgyrch Materion Tai oedd cynnal cyllid llinell sylfaen o £166m am y tair blynedd nesaf. Tra gwnaethom ddal i alw am i hyn gynyddu gyda chwyddiant, mae'n dda gweld bod hyn wedi'i ddyrannu yn y gyllideb a bydd yn galluogi aelodau i barhau i ddarparu gwasanaeth cymorth tai hanfodol i gadw tenantiaid yn eu cartrefi.

Ynghyd â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad cyfalaf hyd at 2024-25 o £60m mewn tai marchnad i fynd i'r afael ag anghenion tai a rhoi hwb o £8.5m i adeiladau tai yn y Cynllun Cymorth Prynu i gefnogi rhan-berchnogaeth rhannu ecwiti, a buddsoddiad neu eiddo prydles yn y sector rhent preifat i'w defnyddio gan awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.

Mae'r buddsoddiad clir hwn mewn atal digartrefedd yn arwydd o fwriad parhaus Llywodraeth Cymru i gyflawni argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae dyraniadau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd wedi manteisio o'r cynnydd mewn rhyddid cyllideb a sicrhodd Llywodraeth Cymru. Mae'r gyllideb hon yn dyrannu cyfanswm buddsoddiad o £250m ac yn rhoi manylion rhaglen cyllid tair blynedd newydd fydd yn rhedeg rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025 ac yn gweld integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £180 miliwn i gefnogi amrywiaeth o raglenni gofal cymdeithasol i fuddsoddi mewn gwella'r seilwaith gofal preswyl a hefyd gefnogi buddsoddiad yn yr hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd. Mae hefyd gynnydd mewn buddsoddiad cyfalaf yn y gyllideb ddrafft yn y Gronfa Gofal Integredig (cynnydd o £20m i £62m bob blwyddyn dros y 3 blynedd nesaf).

Hyd at 2024-25 bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi cyfanswm o £110m mewn gofal sylfaenol a chymunedol i gefnogi eu gweledigaeth ar gyfer seilwaith integredig a hygyrch.

Yn dilyn yr ymrwymiad yn y Rhaglen Llywodraethu, mae'r gyllideb yn manylu y dyrennir cyllid drwy'r setliad llywodraeth leol i alluogi awdurdodau i dalu costau ychwanegol talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £9.90 yr awr i weithwyr gofal cymdeithasol o fis Ebrill 2022. Croesawn y cam ymlaen yma i sicrhau y caiff ein gweithlu gofal cymdeithasol ei gydnabod a'i wobrwyo'n addas am eu gwaith. Mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda darparwyr i sicrhau y caiff y Cyflog Byw Gwirioneddol ei weithredu'n gyflym, ac edrychwn ymlaen at weld mwy o fanylion ar hyn.

Datgarboneiddio



Hefyd wedi'i gyhoeddi heddiw fel rhan o'r ddrafft gyllideb mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith newydd tair blynedd sy'n darparu cyfanswm o £1.8bn o fuddsoddiad i greu Cymru wyrddach, yn cynnwys datgarboneiddio tai.

Mae'r ddrafft gyllideb yn dyrannu £580m hyd at 2024-25 mewn cyllid cyfalaf ychwanegol i roi cefnogaeth uniongyrchol i ddatgarboneiddio'r holl stoc tai cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio flaengar Llywodraeth Cymru (cynnydd i £72m yn 2022-23 ac yna gynnydd pellach i £92m yn 2023 a 2024).

Mae CHC yn croesawu'r ymrwymiad tair blynedd yma i'r rhaglen ôl-osod a strategaethau datgarboneiddio eraill wrth gefnogi cymdeithasau tai yn eu hymdrechion i gyrraedd safon SATC2 pan weithredir hynny y flwyddyn nesaf.

Tlodi Tanwydd

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi £100m hyd at 2024-25 i barhau i ddarparu Nyth Cartrefi Cynnes a chynlluniau olynol, ynghyd â pharhau i wella effeithiolrwydd ynni tua 6,000 o gartrefi bob blwyddyn.

Mae hyn yn arddangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r agenda tlodi tanwydd yn ehangach ac yn sail i adrannau o fewn y [Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer](#) ac yn dilyn y cyhoeddiad am y [Cynllun Cymorth Tlodi Tanwydd](#) a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn.

Cyhoeddiadau eraill am Drethi a Chyllid

• Llesiant/cymorth ariannol

Croesawn yr ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol fel ymyriad a groesawir i gefnogi pobl yng Nghymru y mae'r cynnydd mawr mewn costau byw ac effaith Covid 19 wedi effeithio arnynt.

Mae hyn yn cynnwys y dyraniadau dilynol:

- £7m ychwanegol i ateb y galw parhaus am y Gronfa Cymorth Dewisol
- £90m ar gyfer prydau ysgol am ddim
- £10m o fuddsoddiad i'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol
- £12m i gefnogi mynd i'r afael â threchu tlodi ac anghydraddoldeb

• Ail gartrefi

Nid yw'r ddrafft Gyllideb hon yn cynnwys cynigion am unrhyw newidiadau i gyfraddau Treth Trafodion Tir a fu'n weithredol ers mis Gorffennaf 2001. Yn hytrach, mae hyn yn rhan o weithgaredd ymgynghori ar wahân ar yr ystyriaethau'n ymwneud ag amrywiad lleol cyfraddau'r Dreth ar gyfer prynu ail gartrefi a gosodiadau gwyliau neu eiddo preswyl ychwanegol.



• Ymateb Covid 19

Mae'r gyllideb hon yn cydnabod yr effeithiau hirdymor a gaiff Covid 19 ar yr economi, gyda £1.3bn wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol i GIG Cymru i sicrhau y gallant barhau i ddarparu gofal iechyd ansawdd uchel a chynaliadwy.

Yn ychwanegol mae'r gyllideb yn dyrannu:

- £100m wedi'i dargedu i helpu gwella iechyd meddwl pobl yn dilyn effeithiau'r pandemig
- £110m mewn cymorth ychwanegol ar gyfer ardrethi annomestig busnes yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch

• Adfywio a Diogelwch y Gymuned

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi £3m refeniw ychwanegol a chyfanswm o £100m cyfalaf hyd at 2024-25 i gefnogi twf cynaliadwy trefi a dinasoedd a'u trawsnewid i fod yn fannau ar gyfer byw, gweithio, dysgu a hamdden.

Dyrennir £4m ychwanegol hyd at 2024-25 i gyllido 600 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru i fynd i'r afael â throseddu ac i gefnogi cymunedau.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Bethany Howells, Cymhorthydd Polisi a Materion Allanol, yn Bethany-Howells@chcymru.org.uk